**OWEN JOHN HUGHES (1837-1905)**

Roedd Owen John Hughes, Y Gors, Moeltryfan, yn chwarelwr ac yn ddyn diwylliedig a blaengar iawn yng nghapel yr Annibynwyr a chymdeithas Moeltryfan. Dathlwyd ei fywyd mewn cerddi gan J. R. Tryfanwy.

**Teulu**

Roedd Owen Hughes yn fab i **John Hughes** (1811-1842), Tan-y-gaer, a **Sian/Jane Owen** (1816-1884), Hafod y Wern.

Roedd John Hughes (1809-1842) yn chwarelwr, a chofnodir ei fod yn byw yn Nhan-y-gaer yn 1841 gyda'i wraig Jane, a'u plant Ellen (5), Owen (3) a Richard (1). Roedd yn fab i John Hughes, (?Shop) Coed y Brain. Bu farw ar 25 Mehefin 1842 yn 33 oed, pan oedd Owen Hughes yn bedair blwydd oed. Claddwyd John Hughes ym mynwent Eglwys Llandwrog, yn yr un bedd â'i dad.

Cofnodir Jane Hughes yng Nghyfrifiad 1851, 1861 a 1871, yn byw yn Nhan-y-gaer ('tlotyn' yn ffermio 5 erw). Mae hi yno hefyd yn 1881, dan yr enw Jane Owen. Roedd hi'n aelod o hen deulu Hafod y Wern, yn ferch i Owen Sion, ac yn chwaer i Griffith Owen, Elis Owen, Owen Sion a Sion Owen. Roedd hi'n un o aelodau cyntaf yr Achos Annibynnol ym Moeltryfan. Fe'i claddwyd ym mynwent Hermon [C156].

Cafodd John a Jane Hughes bedwar o blant, sef Ellen/Elin (1836-1911); Owen John; Richard (1840- ) a John (1841-1853) – claddwyd John ym mynwent Betws Garmon yn 11 mlwydd oed.

Priododd Owen Hughes ag **Ellen/Elin Griffith** (1840-1930), Tanyfoel Fawr, Llandwrog, ar 11 Gorffennaf 1859. Roedd Ellen yn ferch i Hugh Griffith (1800-1881), Tanyfoel, (teulu Erasmus) ac Elizabeth (1805-1886). Roedd Hugh ac Elisabeth Griffith hefyd yn flaengar yn sefydlu'r achos Annibynnol ym Moeltryfan. Roedd Ellen yn chwaer i William Griffith (1833-1902) a John Hugh Griffith(s) (1847-1890).

Dair wythnos yn ddiweddarach, priododd ei chwaer Ellen â brawd Ellen Griffith, sef William Griffith; brawd a chwaer yn priodi brawd a chwaer. Aethant i fyw i Danygarnedd, a chawsant ddeg o blant.

Felly, yr oedd gan deuluoedd Owen Hughes a'i wraig Ellen Griffith gysylltiadau cryf â'r achos Annibynnol yn y plwyf.

Cofnodir Owen ac Ellen Hughes yng nghyfrifiad 1861 yn byw yn Ochr y Foel; yn 1871 yn Nhŷ Capel, Hen Gapel; ac yn 1881 a 1891 yn Y Gors. Chwarelwr oedd Owen, mae'n debyg yn chwarel Alexandra uwchben Moeltryfan.

Cawsant saith o blant – John Owen (1860-1921), Elizabeth (1862-1930), Hugh Owen (1865-1911), Owen Richard (1867-1928), Jane (1871-1954), Richard Gwyndaf (1874-1900) ac Ellen Mary (1874-1880).

**Capel**

Roedd Owen Hughes yn un o golofnau'r eglwys Annibynnol ym Moeltryfan. Bu'n ddiacon ac yn ysgrifennydd Capel Hermon am 42 o flynyddoedd. Roedd hefyd yn wybodus iawn yn hanes yr achos yn y cylch – gweler isod.

Mae'n debyg i bethau fynd ar chwâl yn y capel tuag at ddiwedd ei fywyd. Cyfeirir at hyn yng ngherdd Tryfanwy, isod. Torrodd ei galon pan fu farw ei ferch ieuengaf Ellen Mary, a'i fab Richard Gwyndaf yn Ne Affrica; aeth yn fyddar. Erbyn  hynny, ei fab John Owen Hughes a wnâi lawer o'r gwaith yn y capel. Yn ôl yr hanes, yr oedd Capten John Hughes, Bro ? eisiau bod yn ysgrifennydd y capel, ac roedd ganddo deulu mawr - a phan bleidleisiwyd, ef a enillodd. Gadawodd pob un o flaenoriaid Capel Hermon, ynghyd â theulu'r Gors ac eithrio Owen Hughes, a chynnal gwasanaethau yn yr ysgol. Yn 1903 adeiladwyd Capel Gorphwysfa – roedd pobl Hermon yn galw Gorphwysfa yn 'gapel sori' oherwydd yr amgylchiadau – ac ym mynwent Rhosgadfan y dewisodd nifer o aelodau'r teulu gael eu claddu.

Ceir adroddiad am Owen Hughes, Gors, yn areithio mewn cyfarfod yng nghapel Hermon yn 1878 (*Y Genedl Gymreig*, 17 Hydref 1878).

Fel rhan o'i waith ar ran y capel yr oedd Owen Hughes yn cynrychioli Capel Hermon yng Nghyfarfodydd Chwarterol Annibynwyr Llŷn ac Eifionydd; mae'n debyg ei fod wedi cael profiad arbennig o fod yn bresennol yng nghyfarfod agoriadol capel newydd Hermon yn 1884:

> '… Cyn terfyn y gynadledd dadganodd amryw o'r brodyr eu llawenydd wrth weled y fath olwg lewyrchus ar yr achos yn Moeltryfan … rhoddodd

Mr W Lloyd, diacon hynaf yr eglwys, ychydig o hanes yr achos yn y lle, yr olwg lwydaidd oedd arno pan ei gwelodd gyntaf, ac fel y cynyddodd o radd i radd nes cyrhaedd y sefyllfa lewyrchus y mae ynddo yn awr. Yr oedd y lle yn fyw tra adroddai yr hen frawd yr hanes yn ei ddyll syml a di-arddun, ac yr oedd yn dda gan bawb ei glywed yn dweyd nad oedd neb a ddeuai yno i bregethu mor boblogaidd a'u gweinidog hwy eu hunain.' *Y Genedl Gymreig,* 24 Medi 1884

Roedd Owen Hughes yn perthyn i gymdeithasau lleol ac yn helpu i'w trefnu:

> 'Hermon, Moeltryfan – Gwyl lenyddol a cherddorol - … buddugwyr … O.J. Hughes, Garegwen …' (*Y Genedl Gymreig,* 7 Mai 1895).
>
> 'Cylchwyl Lenyddol a Cherddorol, Moeltryfan, yr hwn a gynhelir ? Ebrill 1901 …. Ceir pob manylion yn nglyn a'r personau hyn gan Mr Owen Hughes, Gors, Moeltryfan …' *Yr Herald Cymraeg,* 29 Ionawr 1901.

Mae '*Taith y Pererin – hanes bywyd ac ysgrifeniadau John Bunyan*' (Fisher Son & Co, Argraffwyr, Llundain) yn fy meddiant, gyda'r enw 'OJ Hughes, Ty Capel, Foel Tryfan' wedi ei brintio ar y tu mewn. Hefyd, mewn llawysgrifen, 'Mr OJ Hughes, Gors, Moeltryfan', ac eto 'Mr O Hughes, Tanygaer'. Mae dyddiadau wedi eu hysgrifennu o fewn y llyfr - May 29th 1881 (tud 114), 21 Medi 1878 (tud 120) – a hefyd yr enw Richard Gwyndaf Hughes Medi 14 (tud 113), RGH (tud 117). Mae'n debyg bod Owen Hughes, ac wedyn ei blant, wedi darllen y llyfr ac wedi cofnodi rhif y dudalen yr oeddynt wedi ei chyrraedd a'r dyddiad.

**Hanes Eglwys Hermon, Moeltryfan**

Roedd Owen Hughes yn wybodus iawn am hanes capeli Moeltryfan a'r cylch – ceir cyfeiriad at lythyr ganddo yn llyfr *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru, cyf 3, Sir Gaernarfon,* gan Thomas Rees a John Thomas (1871, tud 233).

Yn 1880 ysgrifennodd Owen John Hughes, Y Gors, draethawd ar '*Hanes Dechreuad a Chynnydd Eglwys Hermon, Moeltryfan, 1840-1880. Hefyd Nodiadau Bywgraffyddol ar rai personau a fu'n golofnau dan yr Achos yn y lle*'. Copïwyd a diwygiwyd yr orgraff yn ddiweddarach gan W. Gilbert Williams, hanesydd lleol, a chedwir y traethawd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru (NLW MS 10913C).

Mae'r traethawd yn dilyn hynt a helyntion yr Achos Annibynnol o'r cychwyn cyntaf ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif:

> ' … yng nghwrr uchaf ardal Rhosgadfan – mewn ty gwag, oedd ar y pryd heb ei gwbl orffen, a'i enw Tan'rallt – y cafodd y cyfeillion Annibynnol le i gyfarfod gyda'i gilydd gyntaf eirioed. Ac yno y buont am ysbaid byr yn cadw Ysgol Sabothol yn unig, ac aent i Bisga i'r moddion eraill ar y Saboth, yn gystal ag i'r cyfeillachau wythnosol…'

Penderfynodd tri o'r addolwyr wrth gerdded yn ôl o Bisga 'ar noson olau braf':

> '… godi rhyw fath ar le i addoli mewn man canolog, fod y ffordd i Bisga'n faith a blin i'w theithio, a bod rhywfaint o obaith cynnydd yn y sbotyn hwnnw …'

Y 'sbotyn' oedd Hen Gapel, ond cafwyd trafferthion wrth adeiladu'r capel yn y man:

> '… yr oedd yr adeg honno'n beryglus iawn i godi adeilad ar y comin trwy fod y plwyfolion mewn plwyfgwrdd wedi penodi dau ddyn i edrych ar ol y comins ac i chwalu'r hyn a adeiledid arno. Ond ni ddaeth dim drwg oddiwrth y chwalwyr, fel y gelwid – daeth o gyfeiriad arall yn bur annisgwyliadwy. Rhyw noswaith pan oedd y capel wedi ei goedio ac yn barod i'w doi cododd ystorm fawr o'r gorllewin a chwythodd y talcen i mewn a drylliwyd rhan fawr o'r coed…'

Cafwyd anghydfod rhwng yr arweinwyr gwreiddiol ac eraill; serch hynny:

> '… yr adeg yna dechreuwyd addoli yn y capel er nad oedd yr un eisteddle o'i fewn. Eisteddai'r bobl ar ddarnau o gerrig gwenithfaen oedd heb eu clirio o'r llawr…'

Roedd anghydfod pellach, ond wedyn fe setlwyd pethau rhyngddynt. Meddai Owen Hughes:

> '… Ychydig oedd nifer y trigolion ar gychwyniad yr Achos, a'r rhai hynny o wahanol enwadau  ac wedi dyfod o wahanol ardaloedd ym Môn ac Arfon, nes bod yma lawer o rwystrau i gychwyn Achos Annibynnol. Yr oedd y brodyr ym Mhisga'n chwyrnu'n groch am achos Annibynnol mor agos atynt hwy …'

Mae'r traethawd yn mynd ymlaen i nodi'r cynnydd yn yr Achos dros y cyfnodau. Ar y daith, yr oedd sawl anghydfod pellach, gan gynnwys:

> '… Wrth ystyried pob peth a fu yn arhosiad Mr [Samuel] Jones yma y mae'n rhaid dweyd y buasai'n well o lawer i'r Achos pe na buasai funud yma erioed. Gwnaeth wrth fyned i ffordd yn debyg fel y gwnaeth Samson wrth farw. Tynnodd y dynion gorau oddiyma ac aethant i Bisga… Da gennym feddwl na cheir yn hanes yr Eglwys hon mewn un cyfnod ddim byd yn debyg i'r hyn a gafwyd yn y cyfnod hwn.'

(Yn anffodus, roedd cyfnod tuag at ddiwedd bywyd Owen Hughes hefyd yn gythryblus i'r Capel.)

Roedd y cyfnod rhwng 1856 a 1860 yn un llwyddiannus i'r Capel, gan gynnwys sefydlu'r Cyfarfod Blynyddol bob Sulgwyn:

> '.. i'r Foel y mynn y bobl ddyfod, trwy'r sgriw a'r cwbl; y mae bron wedi myned mor boblogaidd a gwyl fawr yr Iddewon yn Jersusalem.'

Yn ystod y cyfnod hwn y soniwyd am gael capel newydd, ond yr oedd gwrthwynebiad:

> '… Yr oedd y bobl oedd dipyn yn bwysig eu hamgylchiadau bydol oll yn erbyn capel newydd rhag ofn i ddim o'u golud hwy gymryd ei adenydd, am a wyddis …'

Rhoddwyd tir am ddim i adeiladu'r capel, ac yn 1861/62 adeiladwyd capel newydd, Hermon. Estynnwyd y capel yn 1872 a hefyd cafwyd tir i greu claddfa.

Mae'r traethawd yn gorffen trwy gyfeirio at lwyddiant y Capel o dan ofalaeth eu gweinidog ar y pryd, Hugh Davies, a dyhead y gynulleidfa i gael capel newydd:

> ' … hyderwn nad ydyw'r diwrnod ymhell pryd yr estynnir cortynnau Hermon eto…'

(Gwireddwyd y dyhead pan ail-adeiladwyd Capel Hermon yn 1884).

Yn ogystal â hanes y capel, mae traethawd Owen Hughes yn frith o fanylion am y cymeriadau a fu'n gysylltiedig â'r Achos Annibynnol, ac mae'n rhoi

mewnwelediad difyr i gymdeithas Moeltryfan yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**Cerddi J. R. Tryfanwy**

Ganwyd John Richard Williams, J. R. Tryfanwy (1867-1924), yn Nhan y Manod yn Rhostryfan. Pan oedd yn fachgen ifanc, symudodd y teulu i Dyddyn Difyr, Moeltryfan, sy'n agos i'r Gors. Bu farw'r tad mewn damwain yn y chwarel, a symudodd y fam a'r mab yn ôl i Dan y Manod. Bu farw'r fam yn fuan wedyn, a chafodd Tryfanwy ei roi yng ngofal ei fodryb ym Mhorthmadog. Yn gynnar yn ei fywyd cafodd anffawd ac aeth yn fyddar a dall, ond er gwaethaf ei anawsterau meistrolodd reolau barddoniaeth, ac yr oedd yn fardd llwyddiannus. Cyhoeddwyd dwy gyfrol o'i waith – *Lloffion yr Amddifad* (1892) ac *Ar Fin y Traeth* (1910).

Mae'n debyg bod J. R. Tryfanwy yn ffrindiau agos ag Owen Hughes a theulu'r Gors. Mae o leiaf dair o'i gerddi yn sôn am Owen Hughes.

Mae'r gerdd *Nos Lun Gynta'r Mis,* a gyhoeddwyd yn *Y Dinesydd Cymreig,* 30 Gorffennaf 1919, yn cyfeirio at Owen Hughes, ei fab John Owen Hughes ('*John y Gors')*, a'i frawd-yng-nghyfraith, William Griffith:

Do, fe gawsom Gwarfod Gweddi,

Nas angofiaf bythoedd, mam;

A goleuni mawr ymachlud

Trwy'r ffenestri'n llosgi'n fflam;

Llawnion oedd y seti hwythau,

Nes aeth gruddiau 'nhad yn lli, -

Brysiwch fendio, a chewch chwithau

Dod i'r Capel, gyd a ni.

Nos Lun Gynta'r Mis oedd heno,

A'I munudau'n felys iawn; -

OWEN HUWS yn dechreu'r oedfa

Gwyddoch chwi mor fwyn ei ddawn;

Ac yr oedd o'n darllen heno,

Nes mae'i fwynllais lond fy nghlyw;

Ac yn darllen lle dywedir

Pwy a drig ym mhabell Duw!

JOHN y Gors a William GRUFFYDD

Oedd, fel arfer, gyd a'r gân;

Os cynefin yr emynau,

'Roedd y canu fel ar dân;

Siai awel dros y dyrfa,

Fel chwyf aden bêr ddi nam, -

Wn i ddim beth ydoedd hynny,

'Gwynt y Nefoedd,' hwyrach, mam!

Wedi'r dechreu, aeth JOHN PARRY

I'r Set Fawr yn araf ddwys;

Ac fe'i gwelsom, er ei gryfed,

Ar y Fainc yn rhoi ei bwys;

Eisiau'r GRAIG i 'adeiladu

Arni' oedd ei weddi ef;

Ac fe welsom, ar ei ddagrau,

Fod y Graig a gar yn gref!

Wedyn cawsom weddi arall -

Gweddi WILLIAM LLOYD oedd hi; -

Sut na chaiff o fynd i'r Nefoedd,
Wn i ddim, os gwyddoch chwi; -
'Roedd o'n diolch ma gael 'Oriau
Gyd a'r IESU'- ym mhob man;
Ac y deisyf ar i'w Arglwydd
Ddal i'w 'gynnal-yn ei ran!'

Wedi'r oedfa, ymwasgaru
Yng ngwawl bryniau'r Werddon bell,
A hiraethu am gipolwg
Ar fynyddau'r Wlad sydd well;
Ac wrth ddyfod adre f'hunan
Heibio'r Gorlan fach ddi gwyn,
Cofio'r BUGAIL DA, a chrio -
Am gael byw yn un o'i wyn.

Nos dawch, mam, a chysgwch bellach,
Cilia'r Nos, a'r dydd a ddaw;
Ni bydd 'nhad yn hir heb gyrraedd,
A'I lyfr canu yn ei law;
Cysgwch, mam – yn si'r Cwrdd Gweddi
A gysegra 'ngyrfa dlawd, -
Trysor gwell na pherlau'r oesoedd,
Perl nad aiff byth, byth yn wawd! J. R. T

Mae’r gerdd *Er Cof Annwyl*, a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn *Cymru* (cyfrol 46, 1914, tud 144), yn sôn am garedigrwydd Owen Hughes yn gosod carreg yn Hermon ar fedd rhieni J. R. Tryfanwy:

Tan flodau’r grug yn Hermon
Yr huna ‘nhad a mam,
A dyna’r blodau druta’u rhyw –
Gwyn fyd nas gwyr paham!

Mi wylais lawer yno
Wrth orfod gado’r fro,
Am nad oedd gennyf garreg fedd
I gadw y fan mewn co …

… Ond pan es yno wedyn,
Ymhen blynyddau maith,
‘Roedd “carreg arw” ar ben y bedd –
Ryw droedfedd uwch na’r graith.

A gwelais, erbyn craffu,
Nad oedd na thlawd na rhad;
Torasai rhywun arni hi
Lythrennau enw nhad!

Ba gyfaill da fu yno
Ar ddistaw, ddistaw rawd,
Yn gwneud cynwynas oreu’r byd

I fab a bedd y tlawd?

Ni fedrwn beidio holi
Pwy oedd, a phle yr aeth,
A chefais wybod, yn y Gors,
Mai Owen Huws a'i gwnaeth.

Nid wn sawl gweithred debyg
A wnaeth efe trwy'i oes;
Ond mae pob un ar lyfr y Nef
Tan arwydd gwaed y Groes.

A bore'r Farn ddiweddaf,
Pan dawo'r utgorn ffraeth,
Bydd Iesu Grist yn dweyd wrth bawb
MAI OWEN HUWS A'I GWNAETH!

Yn yr un gyfrol o *Cymru* (tud 59-63), mae awdl goffa i *Owen John Hughes, Gors, Moeltryfan, 1837-1905*, wedi ei hysgrifennu mewn sawl cymal gan ddechrau ag englyn:

Owen Huws a lawenha – fy enaid
Wrth gofiannu 'i yrfa;
A beth mor hoff a choffa
Camre teg cymeriad da!

Teitl y darn cyntaf yw *Taro'r Tant*. Mae'n sôn am ei fagwraeth yn y mynyddoedd o gwmpas Moeltryfan, am golli ei dad yn ifanc, am ei ymroddiad cynnar i'r capel, a rhagargoel o'r helbulon y byddai yn eu hwynebu yn ddiweddarach.

Ganed y gwr a fawryga fy nghalon

Yng nghryfder Eryri ban;

Nerthoedd di-stwr y mynyddoedd cariadlon

A'i noddai'n fachgenyn gwan.

Yfodd bob dydd o'r ffynhonnau grisialog

Fyrlyma yn hedd y fro;

Carodd bob craig yn yr ardal odidog,

A charodd ei grug a'i gro.

Clywai bob hwyr draddodiadau Moel Tryfan,

A chwedlau ei gwerin gynt;

Teimlai bob gwawr bod egnion anniflan

Oes newydd yn cyffro'r gwynt;

Hoffodd laiscyrn y chwarelau aflonydd

Ddoi ato dros fryn a choed,

Cafodd ei hun heb ei dad ar y moelydd

Ac yntau ond pedair oed.

Chwyliai am ddysg – i'w chyfrannu'n ddihysbydd

Tan ymladd yn lew â'i ffawd;

Credodd am byth yng Nghreawdwr y mynydd,

Heb ofni na gwg na gwawd;

Per oedd ei lais wrth "roi hwyl" i'r carolau

A ddysgodd ym more'i oes;

Cadarn ei fraich wrth fynd allan i'r brwydrau

A frwydrodd ymhlaid y Groes.

Gwybu am gur a phicellau bradwrus

Lle'r naeddai ddihalog barch;

Gwywodd yn glws, a daeth tyrfa hiraethus

I wylo ar flodau'i arch.

Plentyn y Foel oedd efe, ac anwylai

Bob gwryd o erwau'r fro;

Gweithio'n ei chraig hyd y diwedd a garai,

A huno'n ei grug a'i gro.

Mae'r ail ran, *Glas y Bore*, yn sôn am ddyddiau cynnar achos Annibyniaeth yn yr ardal, diwygiad 1859, Owen Hughes yn y chwarel ac wedyn yn mynd i weithio i Lanberis, ei hiraeth, cyfarfod ei wraig Ellen Griffith, Tanyfoel Fawr, a dychwelyd i Foeltryfan.

Anghysbell oedd Moel Tryfan yng nglas ei fore ef,

Heb ysgol ddyddiol yn y tir, na theml i Dduw y Nef –

Ychydig dai gwasgarog a feddai'r annwyl fro,

Ac ni chyrhaeddai cloch y llan mo'i llwybrau trwm eu tro ….

…. Ond cadwodd ambell enaid fflam loew yn ei lamp,

A chlywid weithiau yn yr allt weddiwr sicr o'i gamp;

A mentrai rhai o'r gwylwyr broffwydo toriad dydd,

A son am dyrfa plant y Foel yn blysio rhodio'n rhydd.

A chredu'r broffwydoliaeth wnaeth "Owen Tan y Gaer,"

A dechreu canu salmau'r wawr i'w fam a'i frawd a'i chwaer….

Ymwasgodd at y brodyr a feddai ras a dysg,

Fel un a fynnai ddwyfol hawl i aros yn eu mysg;

Bwytai bob llyfr roid iddo, gan ymgryfhau bob awr.
Yn ysgol brin Hen Gapel draw, a Llofft Glan 'Rafon Fawr.
A'r saint fu lawen wrtho – yr oedd ei lygaid byw
Yn llygaid llanc a wybu'r wyrth fedd eli llygaid Duw.
A'i enaid yntau lanwyd gan ganu fel y môr,
Wrth weld y Foel yn '59, yn nhân cerbydau'r Ior;
A methodd pob gwrthweithiad a'i droi o'i le yn drist, -
Fe welsai ddagrau cariad Duw ar wyneb Iesu Grist.

Ymunodd â'r ychydig – yr anwyl "ddau neu dri,"
Oedd yn sylfaenu temlau cain ein breintiau pwysfawr ni:
Diwylliai'i hun bob munud, a'i weddi'n daer bob awr.
Gan wneud ei oreu, ymhob man, o oreu'r Nef a'r llawr …

Aeth i'r chwarel i Lanberis, lle'r oedd llanw o fywyd cry
Yn ymchwyddo'n donnau nerthol, ac yn torri'n genllif hy
Yn swn cannoedd o chwarelwyr fedrai ganu goreu'r wlad
Ac ymdaflodd i'r llifeiriant wrth ewyllys wen ei Dad,
Gwelodd yno dlysni'r grasol, a gwrthuni'r afrad ffol,
Ac yn ferw o ysbryd gweithio dros y Nef y daeth yn ol;
Gwir mai prin y medrai'i galon guro noswaith o'r hen dir
Heb hiraethu, fel pe byddai wedi crwydro flwyddyn hir,
A bod ynddo hiraeth arall na fai'n dawel funud awr
Nes gorffwyso tan gyfaredd llygaid Elin Tan Foel Fawr …

Mae'r drydedd ran, *Cathlau Nawn*, yn sôn am gyfarfod Owen Hughes am y tro cyntaf, diwrnod ei briodas, ei waith fel chwarelwr, symud i'r Gors gyda'i deulu,

ei ganu a'i farddoniaeth, ei waith dros yr achos a'r dirmyg a wynebodd, yr oriau hir fel ysgrifennydd y capel, a'i ran allweddol yn natblygiad y fro. (Ceir cyfeiriad at fardd-enw Owen Hughes, *Gwyndaf Hen*, ond yr oedd gan sawl bardd o'r cyfnod hwn yr un bard-enw, gan gynnwys W. Roberts (*Gwilym Eryri)* oedd yn fardd llwyddiannus; felly, o'r cyfeiriadau at ymgeiswyr a buddugwyr eisteddfodau'r cyfnod, ni allaf fod yn siŵr at ba fardd y maent yn cyfeirio.)

Pan oeddwn blentyn llonna'r wlad,

Ar aelwyd gynnes mam a nhad …

… Daeth Owen Huws y Gors i'r ty,

Yn nyddiau nerth ei fywyd cry'

Gan wenu'n fwyn wrth dderbyn gwên

Na wybu 'rioed am fynd yn hen, - …

A chododd 'nhad o'r gadair fawr,

Fel gallai 'i gyfaill eiste i lawr;

Ond diymhongar oedd efô –

Un lai ei drych a wnelai 'i dro,

Ac ni symudai'n uwch, un cam,

Er cryfed taerni tlws fy mam.

Ysgwyddog, talbraff oedd y gwr,

Bonheddig, cynerth a di-stwr; …

… A llechai rhychau 'i dalcen gwych

Dan dorchau gwallt lled-felyn, crych;

A'i lygaid glas – yn gweld pob man,

Ond byth yn hoffi llethrau'r gwan –

Yn syllu'n ddwys, tan aeliau mawr,

Yng ngolud hud rhyw gyfrin wawr…

… Ond pan ddechreuodd siarad,
Gwnaeth dân fy mron yn fflam, -
Fe wyddai sut i ateb ‘nhad,
A’r sut i ateb mam;
A’r hen Gymraeg oludog
Ymlifai dros ei fin;
Yng nghryfder creigiau’r Mynydd Mawr,
A mwynder pura’r gwin…

… Mor dlws oedd ei fore priodas,
A’i Elin ddihalog mor llon;
Os nad oedd ond tair blwydd ar hugain,
Diderfyn oedd gwynfyd ei fron; …

… Ni welwyd mo’i well fel chwarelwr,
Cymydog, na chyfaill erioed;
A chwyddai ei barch gyda’i ddyddiau,
Fel bendith yr haf yn y coed;
Oraclau oedd geiriau ei wefus,
A throai ‘i gynghorion yn gân, -
Yr ydoedd ei allor mor ddisglair,
A’i fywyd, bob amser, mor lân…

A phan gafodd symud ei luest

I’r Gors gysegredig gerllaw,

Ni wywodd y tân ar ei allor

Tan heulwen, na churwynt, na glaw;

A melus yw cofio’i dangnefedd

A’r teulu yn naw gylch y bwrdd, -

O, ‘r ydoedd yr allor yn ddisglair

Cyn mynd o’r un plentyn i ffwrdd.

Darllenai bob peth yn ei gyrraedd,

Myfyriai a gweithiai o hyd;

Gwnai ‘i oreu i bawb drwy’r gymdogaeth,

A’i dyddyn yn ddestlus a chlyd; …

Pan oedd yn fachgenyn ar fryniau’r hen fro,

Breuddwydiodd y byddai’n fardd enwog ryw dro - …

… Ond carodd ei freuddwyd er popeth yn gu,

A gwyddai barddoniaeth am gysgod ei dŷ;

A chanodd, ar brydiau, wrth hamdden y tant,

Ganeuon a lonnai ei briod a’i blant; …

… Nid rhyfedd i’r Nefoedd oleuo ei wên,

A lledu’n ei wyddfod

Y dyddiau sy’n dyfod

Yn fendith ar freuddwyd a chân Gwyndaf Hen*… (*Ei fardd-enw)

… Ac Owen Huws y Gors oedd yr ehedydd

A gododd Duw o'r grug i las y wawrddydd.

Ond rhyfedd dweyd na chafodd ef mo'r croeso

Ga'r hedydd gwiw gan adar coed wrthh ddeffro:

Bu frwydro hir rhwng Owen Huws a'r hirnos

Oedd wedi gwneud calonnau'n bebyll diddos.

Rhagfarnau hen ystyfnig a diogi

A ruai'n groch aflafar drwy'r clogwyni

Yn erbyn dysg, yn erbyn newid arfer

A deffro'r fro i 'nabod ei grymuster.

Ond daliodd ef i ganu cân ei Arglwydd

Heb ofni dim ond methu 'ngwaith dyledswydd.

Bu 'i ddagrau'n hallt ar lawer awr ddolurus,

A'i gamrau n llesg ar lawer siwrnai glwyfus;

Ond aeth ymlaen yn gyflawn o amynedd,

Gan ddysgu pawb a garai lais gwirionedd…

… A phryd erioed y gwelwyd blaenor gwell –

Yn ara'i gam, yn gweld yn glir a phell,

Yn fanwl iawn, yn dderwach hyd y carn,

Yn gweithio fyth dan gofio'r Duw a farn?

Er gwybod mwy nag odid neb o'i ddeutu,

Myfyriai'n hir cyn codi i lefaru;

Ac wedi dweyd y gair a gredai 'i galon,

Eisteddai i lawr heb ofni gwrth-furmuron:

A gredai ef, fe'i dwedai pan fo raid;

A ddwedai ef, fe safai byth o'i blaid;

A hyn a'i gwnaeth yn dŵr mewn llawer drycin,

A'i gysgod clyd yn fwynach na'r melyswin…

… Gwell colli'r glew a ŵyr ddihafal frwydro,

Na cholli'r gŵr a ŵyr y weddi honno! –

Ac Owen Huws a'i gwyddai. O, Foel Tryfan,

Mae'n dda i ti bod Duw yn cofio'r cyfan.

Mae'r bedwaredd ran, *Tannau'r hwyr*, yn cyfeirio at Owen Hughes yn heneiddio, yn torri ei galon pan fu farw ei ferch a'i fab, yn mynd yn fyddar, ac yn marw.

… Aeth Owen Huws, fu'n wyrth o nerth,

Yn wannaidd, llesg a syn,

A'i dyner fron dan lawer tonn,

Yn nyddiau'r blewyn gwyn...

… Aeth awel oer o'r Gogledd

Tros gaeau'r Gors ryw nawn,

A suodd heibio'r aelwyd –

Yr oedd hi'n finiog iawn;

Ac erbyn bore trannoeth

'Roedd barrug ar y coed,

Ac Elen Mary wen yn glaf,

Yn eneth chwe mlwydd oed.

Anwylyd lonna'r teulu,

Ferch ienga'i thad a'i mam –
Pwy draetha'r ymdrech galed
I'w hadfer hi o'i nam!
Ond gwywo wnaeth yr eneth
Fel blodyn ola'r ha',
Nes dygwyd hi tros donnau'r lli
Yn mreichiau'r Bugail Da.

Bu'r Gors yn rhywle rhyfedd
O'i cholli, dymor hir,
Ac Owen Huws yn dwedyd
Na welai bethau'n glir;
Cymylau a thywyllwch
Oedd wedi duo'i nen, -
Ond mynnodd gredu, yn ei ing,
Bod Gorsedd Duw yn wen.

Ac ni ddwedodd air yn erbyn
Cadarn ddoeth ewyllys Duw,
Pan oedd llaw byddardod cyndyn
Ar allweddau aur ei glyw;
A phan fethodd y meddygon
Agor clo y dirfawr ust,
Rhodiodd ef yn bur o galon
Gyda'r Hwn fu'n plannu'r glust…

… Yn y ty ac yn y chwarel
Aeth yn unig, unig iawn;
Unig hefyd yn y capel
Er pob seingar ddengar ddawn,
Ond yn wyneb gwaetha'i drallod
Suai 'i fynwes gynnes gân,
A gorchfygai 'i flin fyddardod
Wrth fyfyrio'i lyfrau glân…

… A phan aeth Richard Gwyndaf tros y môr,
I geisio nerth yn hinsawdd Affric bell,
Mor dyner ddwys y ceisiai yntau'r Ior,
A golwg glir ar gyrrau'r wlad sydd well…

… Ond yn y man gwybuwyd nad oedd neb
A dorrai rwym hir warchae angau du;
Ac Owen Huws a gafodd ddalen wleb
Gan ddagrau'n dweyd mai marw ei fachgen cu…

… Tawedog oedd, ac ni sgrifennai ddim,
Ond syllain fwyn i'm hwyneb – anwyl ffrynd! –
Fel petae'n dweyd, - "mae eraill frodyr chwim
Yn disgwyl draw, ac atynt 'rwyf yn mynd!"

Ac felly fu, a Chymru'n canu'n llaw'r
Diwygiad per, a'r Sulgwyn wrth y drws,

Fe'i codwyd ef o freichiau 'i gadair fawr
    Ar aden glaer, at Dduw, yn ddwyfol dlws.

A serchog dlws oedd dagrau 'i briod wen,
    Fu gydag ef drwy holl drofeydd y daith,
Wrth weld ei fynd mor ddisglair hwnt i'r llen
    Lle nad oes ing, na neb a'i rudd yn llaith?

Y rhan olaf yw *Cerdd Allwyn*; y pennill sy'n diweddu yw:

… Dyma glychau'r Ysgol Ddyddiol yn datseinio bryniau'r fro,
Ac mae llais pob cloch yn hwian Owen Huws yng ngwely'r gro.
Gwn y medrai huno'n dawel pe distewid ffrwd y bryn,
Ond nid wn a hunai funud pe distawai'r clychau hyn.
Clychau'r ysgol, clychau cynnydd, - clychau godre gwisg yr Oen, -
Dyna geidw ei hun ddiweddaf ym melystra'i hedd di-boen.
Heddwch iddo, ffrynd ardderchog, wedi'i waith a'i gystudd mawr, -
Bydd ei wedd a'i wobr ymhlith y rhyfeddodau fore'r wawr;
A bydd llais ei delyn gref yn fendigedig wrth y bwrdd,
Pan ddaw plant Moel Tryfan adref yn y dydd cawn eto gwrdd.

**Marwolaeth**

Bu farw Owen John Hughes ar 9 Mehefin 1905 yn 68 mlwydd oed. Claddwyd ef gyda'i wraig, Ellen Hughes a'u merch, Ellen Mary, ym mynwent Hermon [C155].

Er mai chwarelwr cyffredin oedd Owen Hughes, roedd ei gyfraniad diflino i'r Achos Annibynnol yn Hermon, a thrwy hynny i gymdeithas Moeltryfan yn ei chyfanrwydd, yn nodedig; mae hanes ei fywyd a'i ymdrechion wedi eu coffáu am byth yng ngherddi ei gyfaill J. R. Tryfanwy.

**Emyr Roberts, 199 Cyncoed Road, Cyncoed, Caerdydd CF23 6AJ - Medi 2016**
(Gor, gor-ŵyr i Owen John Hughes, ar ochr fy mam)